Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.

Rhifyn 340 (Cymru) – 26 Ebrill 2023

Arsylwi etholiadau yn Lloegr ar 4 Mai 2023

Gwyddwn y bydd rhai ohonoch yn arsylwi'r etholiadau yn Lloegr ar 4 Mai neu'n cynorthwyo cydweithwyr yn Lloegr drwy weithredu fel staff mewn gorsafoedd pleidleisio.

Byddai'n ddefnyddiol i'r Comisiwn Etholiadol a Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru petaech yn medru rhoi ychydig adborth o'ch ymweliadau. Bydd hyn nid yn unig yn cynorthwyo sut bydd y Comisiwn yn adrodd ar etholiadau mis Mai 2023 ond hefyd yn helpu gyda chynllunio ar gyfer gweithrediad y gofynion ID pleidleisiwr yng Nghymru cyn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu blwyddyn nesaf.

Os byddwch yn arsylwi neu'n cynorthwyo, rhowch wybod i ni drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk Byddwn wedyn yn anfon rhestr wirio atoch i'ch helpu i gofnodi'ch arsylwadau.

Taflen A5 ID pleidleisiwr

Rydym wedi cynhyrchu taflen A5 y gallwch ei chynnwys yn eich cyfathrebiadau canfas yn hwyrach eleni i helpu codi ymwybyddiaeth o ID pleidleisiwr gyda'ch trigolion. Mae'r daflen wedi'i dylunio yn dilyn ymgynghoriad gyda gweinyddwyr ac is-grŵp Cyfathrebu Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru.

Mae'r daflen yn y fan hon ar ein gwefan.

Os hoffech ychwanegu eich manylion eich hun (er enghraifft logo neu rif ffôn), e-bostiwch ni yn gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk a gallwn rannu'r ffeil gwaith celf gyda chi.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Arsylwi etholiadau yn Lloegr ar 4 Mai 2023

Cais am wybodaeth gan y rheiny sy'n arsylwi neu'n cynorthwyo gyda'r etholiadau yn Lloegr ar 4 Mai.

Taflen A5 ID pleidleisiwr

Gwybodaeth ar, a dolen i, daflen y gellir ei chynnwys yn y cyfathrebiadau canfas i helpu codi ymwybyddiaeth o ID pleidleisiwr.

Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.

Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.

Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn anfon y cylchlythyr yma atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel sydd yn ein hysbysiad preifatrwydd

© Y Comisiwn Etholiadol 2023

(https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.